**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C** **Cyfarfod Rhif 410**
**28 Medi, 2017, S4C, Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Awdurdod) |
| **Staff S4C:** | Ian Jones | (Prif Weithredwr) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategol a Pholisi) – eitem 6.2 |
| **Ymddiheuriadau:** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Ian Jones. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniad allweddol a'i ymroddiad i S4C ers 2012.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 409, a gynhaliwyd ar 13eg Gorffennaf**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 409 (a gynhaliwyd ar 13.07.17).

**Cymeradwywyd y cofnodion gan yr Awdurdod.**

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion isod.

3.1. **Penodi aelodau i'r Awdurdod**

Nodwyd fod cwestiwn wedi ei ofyn ar lawr Tŷ'r Cyffredin parthed aelodau newydd i'r Awdurdod, a bod y Gweinidog wedi nodi y byddai hysbysebion yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd elfen o bryder y gallai DCMS oedi tan ar ôl yr Adolygiad er mwyn ystyried materion strwythurol cyn hysbysebu am aelodau newydd.

Roedd swyddogion yn atgoffa gwleidyddion a swyddogion DCMS parthed yr angen i sicrhau aelodau newydd yn gyson. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi trafod y pwnc gyda Karen Bradley ac Alun Cairns.

3.2 **Apêl mewnol Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Derbyniwyd nodyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y broses o ddelio gyda chais am apêl mewnol parthed cais rhyddid gwybodaeth.

Nododd JD y bydd y Pwyllgor Cwynion yn ystyried y nodyn ac anghenion adnoddau ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn y dyfodol.

3.3 **Cyllideb yr Hydref**

Cyfeiriwyd at Gyllideb yr Hydref sydd i'w gyhoeddi ar 22 Tachwedd. Nodwyd nad oedd bwriad i ail-gyflwyno strategaeth neu anghenion ariannu S4C i'r Trysorlys gan fod yr Adolygiad dal ar waith, ond y dylid ystyried yr angen i atgoffa DCMS a'r Trysorlys o'r angen i sicrhau darpariaeth er mwyn ystyried unrhyw argymhellion parthed ariannu maes o law.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno nodyn ffeithiol er mwyn tynnu sylw'r DCMS a'r Trysorlys i'r angen i (i) warchod lefel ariannu grant presennol DCMS yng Nghyllideb yr Hydref a (ii) nodi bod angen sicrhau darpariaeth er mwyn gallu ymateb i argymhellion posibl yr Adolygiad.

3.4 **Cytundeb am Brydles yr Egin**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad am y broses o arwyddo'r cytundeb am brydles adeilad yr Egin.]

3.5 **Pwerau benthyg**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am faterion yn ymwneud gydag ariannu o DCMS ac Ystad S4C yn Llanisien]

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Cyfarfod gydag Euryn Ogwen Williams**

Nododd y Cadeirydd ei fod ef, Owen Evans ac IHJ wedi cyfarfod gydag Euryn Ogwen Williams a swyddog o'r DCMS. Roedd yn gyfarfod adeiladol, a chafwyd cyfle i drafod nifer o bynciau sy'n berthnasol i'r Adolygiad.

Nodwyd fod yr Awdurdod yn falch i glywed fod trafodaethau cadarnhaol ar y gweill gyda'r Adolygydd, a chafwyd trafodaeth am nifer o'r pynciau perthnasol.

Cyfeiriwyd at benodiadau swyddogion i fwrdd unedol, a nodwyd y byddai angen sicrhau y byddai gan y cyfarwyddwyr anweithredol yr hawl i benodi'r aelodau gweithredol. Ni fyddai modd derbyn sefyllfa lle byddai penodiadau swyddogion i fwrdd unedol S4C yn cael eu gwneud neu eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd

Gwladol. Byddai hyn yn tramgwyddo annibyniaeth S4C ac egwyddorion sylfaenol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Awgrymwyd fod teitl presennol y tîm rheoli, sef y Bwrdd Strategol o bosibl yn cyfrannu at ddryswch am statws y strwythur presennol y corff a rôl yr Awdurdod fel bwrdd anweithredol S4C.

Cafwyd trafodaeth am opsiynau ar gyfer strwythur bwrdd unedol, gan gynnwys cydbwysedd aelodau anweithredol a gweithredol. Roedd bwrdd y BBC yn seiliedig ar 10 aelod anweithredol a 4 aelod gweithredol. Awgrymwyd y byddai 6 aelod anweithredol a 3 aelod gweithredol yn fodel posibl, ond y byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw gynigion am strwythur y model cyn eu cyflwyno i'r Adolygydd.

Penderfynwyd y dylid llunio model posibl ar gyfer strwythur Bwrdd Unedol ar gyfer S4C i'w gyflwyno i'r Adolygydd mewn da bryd ar gyfer cyfarfod pellach ym mis Tachwedd.

4.2 Roedd yr Adolygydd yn ymwybodol fod perthynas statudol eisoes yn bodoli rhwng S4C ac Ofcom, ac roedd o'r farn y dylai'r berthynas bresennol fod yn sail i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am faterion yn ymwneud â dyletswyddau rheoleiddio gwasanaeth teledu S4C]

Wrth ystyried unrhyw newidiadau sylfaenol i drefniadau rheoleiddio ac atebolrwydd S4C, nodwyd ei fod yn bwysig i sicrhau fod y drafodaeth, ac ystyriaeth yr Adolygydd yn canolbwyntio ar ddeall beth yw'r mater neu broblem sy'n cael ei datrys, yn hytrach nac awydd i newid y drefn er mwyn dileu sefyllfa unigryw yn unig.

Byddai angen sicrhau fod unrhyw drefniadau rheoleiddio newydd yn gymesur gyda'r swyddogaeth, a byddai angen hefyd gofio cyd-destun atebolrwydd ehangach S4C, a'r gofynion presennol o ran atebolrwydd i DCMS, Pwyllgorau'r WAC a CMS yn San Steffan, Cynulliad Cymru a Bwrdd Unedol y BBC (am faterion ariannol).

Roedd Ofcom yn reoleiddiwr teledu, ac nid yw pwerau Ofcom yn ymestyn i feysydd cynnwys ar-lein ar gyfer y BBC neu S4C. Wrth ystyried pwysigrwydd cynyddol llwyfannau ar-lein a mathau newydd o gynnwys, roedd creu strwythurau newydd llawdrwm gyda rheoleiddiwr teledu yn anwybyddu cyd-destun y defnydd o gynnwys S4C. Yng nghyd-destun y BBC, roedd Ofcom a'r BBC wedi datblygu MOU sy'n nodi y byddai'r BBC yn 'cymryd ystyriaeth' o farn Ofcom yng nghyd-destun cynnwys ar-lein lle nad oes gan Ofcom bwerau rheoleiddio.

Nodwyd ei fod yn bwysig i atgoffa'r Adolygydd am ddyletswydd statudol yr Awdurdod i ganfod barn y gwylwyr. Mae'r ddyletswydd hon yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i ymgynghori gyda'r gynulleidfa am wasanaeth S4C. Roedd y cyfrifoldeb hwn yn bwysicach na dilyn strwythur o dargedau meintiol wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at gyfrifoldebau Ofcom o ran rheoleiddio canllawiau EPGs traddodiadol, a nodwyd fod y darlledwyr PSB o'r farn y dylai Ofcom hefyd fod yn

ystyried sut i sicrhau statws addas ar gyfer y darlledwyr ar setiau teledu clyfar yn y dyfodol, ond nad oedd Ofcom wedi dangos awydd neu barodrwydd i wneud hyn hyd yma. Awgrymwyd y dylid tynnu sylw'r Adolygydd i faterion cadarnhaol y gallai Ofcom fod yn eu hystyried yn hytrach na chreu system o gwotâu meintiol ar gyfer yr unig wasanaeth teledu Cymraeg.

Penderfynwyd y dylid parhau i gynnal trafodaethau gyda swyddogion Ofcom, a thrafod opsiynau ar gyfer strwythurau rheoleiddio perthnasol gyda'r Adolygydd.

4.3 Nodwyd pwysigrwydd sicrhau arweiniad, egwyddorion a fframwaith y gellid ei ddefnyddio yn 2022 er mwyn ystyried ariannu hir dymor S4C.

Penderfynwyd y dylid parhau i drafod gyda'r Adolygydd ac i baratoi cyfres o nodiadau briffio technegol ar ei gyfer mewn meysydd megis Bwrdd Unedol, Ofcom, proses ar gyfer ystyried Ariannu Digonol, masnachol a phatrwm oriau'r gwasanaeth.

5. **Y Cytundeb Partneriaeth gyda'r BBC**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod drwy gyfrwng e-bost ers cyfarfod arbennig yr Awdurdod ar 8 Medi.

5.1 **Cymeradwyo Cytundeb Partneriaeth S4C a'r BBC**

Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 8 Medi cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda'r BBC yn Llundain er mwyn dod i gytundeb ar fanylion y Cytundeb Partneriaeth newydd.

Cafwyd trafodaethau adeiladol gyda swyddogion y BBC unwaith eto, a llwyddwyd i ddod i ddealltwriaeth ar ddrafft i'w gyflwyno i'r Awdurdod ac i Fwrdd Unedol y BBC.

Cyflwynwyd drafft diwygiedig o'r cytundeb i'r Awdurdod trwy gyfrwng e-bost ar 14 Medi.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at y newidiadau a gynhwyswyd yn y drafft newydd o'r Cytundeb Partneriaeth a ddanfonwyd at yr Aelodau.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cytundeb Partneriaeth a gyflwynwyd ar e-bost yn unfrydol (ac eithrio ECS a oedd wedi datgan diddordeb yn y mater, ac o ganlyniad ddim wedi pleidleisio) trwy gyfrwng e-bost ar 15 Medi, gan ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd drafod fân newidiadau gyda'r BBC pe bydd angen.

Nodwyd fod Bwrdd y BBC wedi ystyried y Cytundeb Partneriaeth drafft yn eu cyfarfod ar 21 Medi ac wedi cymeradwyo'r cytundeb yn amodol ar nifer fechan o awgrymiadau drafftio, gan ddirprwyo i ECS yr awdurdod i drafod unrhyw newidiadau pellach gydag S4C ar eu rhan.

Yn dilyn cymeradwyaeth yr Awdurdod i'r Cytundeb Partneriaeth drwy gyfrwng e-bost ar 15 Medi 2017, cymeradwyodd yr Awdurdod argymhelliad pellach drwy e-bost i awdurdodi Owen Evans i arwyddo cyflwyniad y cytundeb yn rhinwedd ei swydd fel Darpar Brif Weithredwr S4C (os caiff y Cytundeb Partneriaeth rhwng S4C a'r BBC ei arwyddo cyn 2 Hydref 2017) neu fel Prif Weithredwr (os caiff y cytundeb ei arwyddo ar neu ar ôl 2 Hydref 2017), gyda'r Cadeirydd yn

arwyddo'r weithred ei hun a'r cyflwyniad ar ran S4C.

5.2 **Awdurdod i Arwyddo'r TSA a Chytundeb Am Les Yr Egin**

Nodwyd fod swyddogion yn anelu i arwyddo'r TSA gyda'r BBC o fewn y bythefnos nesaf. Esboniwyd mai'r bwriad oedd i IHJ arwyddo'r TSA ar ran S4C, gan ei fod wedi bod yn arwain y prosiect ers tair blynedd.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at delerau cytundebol IHJ wrth adael ei rôl fel Prif Weithredwr S4C er mwyn sicrhau dilysrwydd cyfreithiol arwyddo ar ran S4C.]

Nodwyd fod modd felly iddo barhau i weithredu ar ran S4C, cyn belled â bod yr Awdurdod yn sicrhau fod ganddo'r awdurdod priodol i wneud hynny.

Cymeradwyodd yr Awdurdod argymhelliad drwy gyfrwng ebost ar 26 Medi i awdurdodi IHJ i barhau i weithredu ar ran S4C ym mater y TSA tra bydd dal o dan gytundeb gydag S4C, ac yn amodol ar ddod i gytundeb ar ddrafftio'r TSA, i'w awdurdodi i'w arwyddo ar ran S4C, cyn belled â bod y cytundeb yn cael ei arwyddo erbyn 31 Rhagfyr 2017.

Yn ogystal, cymeradwyodd yr Awdurdod argymhelliad i ganiatáu i IHJ gyflawni'r weithred o arwyddo'r Cytundeb Am Les ar gyfer yr Egin yn amodol ar ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill rhwng S4C a Phrifysgol y Drindod, cyn belled â bod y cytundeb yn cael ei arwyddo erbyn 31 Rhagfyr 2017.

5.3 Cyfeiriwyd at drefniadau cyhoeddi'r cytundebau. Esboniwyd mai blaenoriaeth S4C yw'r Cytundeb Partneriaeth, gan ei fod yn rhoi sefydlogrwydd i'r berthynas rhwng S4C a'r BBC tan 2028. Roedd bwriad S4C i gydleoli gwasanaethau darlledu technegol wedi bod yn rhan o naratif cyhoeddus S4C ers tair blynedd.

5.4 **Llythyr oddi wrth Gymdeithas yr Iaith**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr oddi wrth Cymdeithas yr Iaith a ddanfonwyd yn unigol i'r Aelodau. Roedd ymateb wedi ei ddanfon i'r Gymdeithas yn cydnabod derbyn y llythyr, gan nodi y bydd yr Awdurdod yn ystyried yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Cafwyd trafodaeth am y llythyr ac ymateb yr Awdurdod. Roedd y Cadeirydd wedi ystyried penawdau'r ymateb, a chyfeiriodd at awgrym o ymateb yn ei adroddiad i'r Awdurdod.

Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd ymateb i'r Gymdeithas ar ran yr Awdurdod gan ddefnyddio'r ymateb drafft a ddarparwyd yn ei adroddiad.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

6.1 **Adolygiad cyflogau**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn argymell codi cyflogau blynyddol cyffredinol ar raddfa o 1% o Awst 2017 ac 1.75% o Awst 2018, sef yr un graddfeydd ag y mae'r BBC yn eu cynnig. Esboniwyd fod costau'r cynllun wedi eu hystyried, ac y gellid cyflwyno'r cynllun o fewn y gyllideb bresennol o ganlyniad i newidiadau yn y strwythur staffio a nifer o swyddi sy'n wag ar hyn o bryd.

Nodwyd fod trafodaethau amodau cyflogaeth y BBC yn cynnwys nifer fawr o elfennau, ac nid codiadau cyflog yn unig, a dylid ystyried hyn wrth wneud unrhyw gymariaethau.

Cafwyd trafodaeth am yr argymhelliad, a'r rhesymeg dros ddilyn cynigion y BBC a chynnig pecyn dwy flynedd.

Penderfynwyd cymeradwyo'r argymhelliad i gyflwyno codiad cyflog cyffredinol o 1% o Awst 2017 ac 1.75% yn Awst 2018 i'w drafod gyda chynrychiolwyr Bectu.

6.2 **Adolygiad Amcanion Gweithredol 2017-18**

Cyflwynodd IHJ adolygiad hanner blwyddyn o Amcanion Gweithredol S4C 2017-18.

Cafwyd trafodaeth am ddiffiniad rhaglenni 'juggernauts' a nodwyd yr angen i beidio gor-ddefnyddio'r term ar gyfer rhaglenni nad ydynt am drawsnewid yr amserlen. Esboniodd AR fod rhaglenni sy'n uchafbwyntiau, neu raglen o ddigwyddiad sydd eisoes yn bodoli yn wahanol i Juggernauts. Defnyddir y term juggernauts i gyfeirio at gyfresi fyddai'n gallu dychwelyd i'r amserlen ar ôl y gyfres gyntaf.

Cyfeiriwyd at themâu blynyddol Croeso Cymru a holwyd a oedd bwriad i gynnig darpariaeth i blant yn seiliedig ar y thema Chwedlau. Esboniwyd nad oedd bwriad i gynnig darpariaeth benodol i blant, ond y byddai darpariaeth Chwedlau'n cael ei darlledu yn yr hydref.

Holwyd hefyd a oedd bwriad i gydweithio ar thema Croeso Cymru ar gyfer 2018, sef Mor. Esboniwyd fod dymuniad i gydweithio mwy gyda phartneriaid, ond nad oedd bwriad penodol i gydweithio i ddatblygu cynnwys i gyd-fynd gyda thema'r Môr.

Cafwyd trafodaeth am ddatblygiadau yn y ddarpariaeth i ddysgwyr. Esboniwyd nad oedd rhaglenni pwrpasol ar gyfer dysgwyr yn denu cyrhaeddiad sylweddol ymysg dysgwyr ac felly bod bwriad i ystyried dulliau amgen o gyflwyno'r rhaglenni o fewn yr amserlen.

6.3 **Prosiect Archif Mewnol**

Cadarnhawyd fod y gwaith o ddigideiddio ac archifo llyfrgell S4C yn parhau ac y byddai'n cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr.

Awgrymwyd y dylid ail-ystyried ceisio cymorth ariannol gan HLF er mwyn cwblhau'r prosiect ac er mwyn gallu datblygu cynlluniau i gynnig mynediad cyhoeddus ac ar-lein i'r archif maes o law. Nododd IHJ ei fod wedi trafod cydweithio gyda'r Llyfrgell gyda Rhodri Glyn Thomas a Linda Thomas yn ystod yr Eisteddfod.

Nodwyd fod y BFI wedi derbyn grantiau er mwyn digideiddio archifau ffilm a theledu, a'u bod yn cydweithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol. Awgrymwyd y dylid cysylltu gyda'r BFI a'r Llyfrgell er mwyn trafod cyfleoedd posibl i gydweithio er mwyn hwyluso'r broses o ddigideiddio archif S4C a'i agor i'r cyhoedd ar-lein.

6.4 **Cofrestru ar y wefan**

Cyfeiriwyd at y prosiect i gyflwyno'r angen i gofrestru ar gyfer gwefan S4C, fel ar gyfer yr iPlayer. Esboniwyd fod yr adran TG yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar waith integreiddio system BSM gyda systemau newydd y BBC. Nodwyd yr angen i sicrhau nad yw gwaith paratoi ar gyfer y TSA yn amharu ar allu S4C i ddatblygu elfennau newydd y gwasanaeth i'r gynulleidfa.

Cafwyd trafodaeth am y manteision y gellid eu cyflwyno i'r gynulleidfa ar gyfer cofrestru i ddefnyddio'r wefan, a nodwyd fod cynnig box sets yn un cynnig dan ystyriaeth.

6.5 **Virgin Media**

Nodwyd bod GH wedi cyflwyno'r Cadeirydd i Tom Mockridge, Prif Weithredwr Virgin Media yng Ngŵyl Caergrawnt.

Roedd Virgin wedi danfon llythyr i Kevin Brennan AS yn esbonio'u sefyllfa am rif EPG S4C ar draws y DU.

Nododd GH y byddai Tom Mockridge yn agored iawn i drafodaeth am sut y gall Virgin ac S4C gydweithio er mwyn hyrwyddo gwasanaeth S4C ar lwyfan Virgin.

6.6 **Loteri Cymru**

Esboniodd EM y byddai cyflwyniad perfformiad Loteri Cymru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Masnachol.

Roedd y Bwrdd yn awyddus iawn i ystyried perfformiad y Loteri ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. Roedd yn ymddangos fod rhagdybiaethau gwreiddiol yr ymgynghorwyr wedi bod yn lawer rhy optimistaidd, ac roedd perfformiad presennol y Loteri yn sylweddol is na'r rhagdybiaethau.

Nododd IHJ fod Bwrdd y Loteri yn hyderus y byddai'r Loteri'n parhau i dyfu'n raddol.

Nodwyd fod presenoldeb y cwmni yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol wedi bod yn siomedig. Roedd y cwmni bellach wedi cytundebu cwmni newydd i ofalu am eu gwaith marchnata.

Roedd yn siomedig hefyd mai dim ond un enillydd sydd wedi bod, a'u bod nhw wedi penderfynu peidio rhoi sylw i'w gwobr.

Holwyd a oedd unrhyw straeon parthed grantiau Hanfod wedi eu cyhoeddi. Esboniwyd bod oddeutu £30k o grantiau wedi eu dosbarthu hyd yma. Roedd straeon yn cael eu hyrwyddo yn yr ardaloedd lle rhennir y grantiau. Nodwyd elfen o bryder nad oedd digon o ymwybyddiaeth o Hanfod ymysg y cymdeithasau Cymraeg ar draws Cymru. Roedd swyddogion Hanfod yn y broses o ymweld â chymdeithasau ledled Cymru er mwyn hyrwyddo'r gronfa grantiau.

7. **Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis a aeth heibio gan gyfeirio, ymhlith eraill, at Bang, Yr Ymadawiad, Rhaglen Merched y Wawr yn 50 a Chyngerdd Agoriadol yr Eisteddfod Genedlaethol - Hedd Wyn: A Oes Heddwch?]

**MATERION CHWARTEROL:**

8. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1 2017-18**

Cyflwynodd GW Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1, 2017-18 a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Roedd blaenoriaeth y strategaeth gyfathrebu yn canolbwyntio ar hyrwyddo penodau cyntaf cyfresi newydd.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at ymgyrchoedd hyrwyddo ar gyfer nifer o raglenni a chyfresi. Roedd ymgyrchoedd arbennig wedi eu paratoi ar gyfer pob un er mwyn ceisio apelio at elfennau penodol o'r gynulleidfa.]

Roedd digwyddiadau cyhoeddus wedi eu cynnal yn Gelli Gyffwrdd, Fferm Foel ac Eisteddfod yr Urdd.

Roedd ymgyrch print oedd yn hyrwyddo nwyddau Cyw wedi bod yn llwyddiannus, gyda chynnydd sylweddol o ran ymweliadau gyda siop nwyddau Cyw. Fodd bynnag nid oedd yr ymweliadau hyn wedi cynyddu gwerthiant yn ystod y cyfnod.

Cafwyd trafodaeth am boblogrwydd nwyddau Cyw, ac awgrymwyd fod nifer o'r nwyddau'n weddol ddrud o'u cymharu gyda nwyddau tebyg ar gyfer plant. Roedd siop y wefan hefyd yn rhy gymhleth, ac roedd yn bosibl fod hyn yn amharu ar werthiant. Nodwyd pwysigrwydd nwyddau Cyw o ran hyrwyddo'r brand ac S4C.

Penderfynwyd y dylid ystyried materion yn perthyn i werthiant nwyddau Cyw gan gynnwys y math o nwyddau, prisiau, sut y gellir eu prynu, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r siop ar-lein a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod maes o law.

9. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at gŵyn a dderbyniwyd gan y Wifren Gwylwyr a'r camau mae swyddogion S4C yn eu cymryd.]

10. **Rhaglen Waith yr Awdurdod**

Yn dilyn newidiadau diweddar i amserlen gyfarfodydd yr Awdurdod, nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

*23ain Hydref, 11am, Pwyllgor Cynnwys*
*26ain Hydref, 1.30pm – Awdurdod yng Nghaernarfon gyda linc i Gaerdydd*
*26ain Hydref, 6pm – Noson Gwylwyr, Clwb Rygbi Llangefni*

*7fed Tachwedd, 6pm – Noson Gwylwyr, St.Mary's Priory, Y Fenni*
*22ain Tachwedd – 9am – Cwrdd i Ffwrdd*
*13eg Rhagfyr – 9am – Awdurdod yng Nghaerdydd*

11. **Adroddiad Blynyddol S4C ar weithredu'r Safonau Iaith berthnasol**

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar weithredu'r Safonau Iaith berthnasol i'r Awdurdod er gwybodaeth. Nodwyd mai hwn oedd yr adroddiad cyntaf o'i fath i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.